


# Canllawiau Cyllido ar gyfer Addysg ar draws Meysydd Penodol Gofal Iechyd.

---



**Medi 2020**

---

## Cynnwys

---

- |            |  |
|------------|--|
| Tudalen 3  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflwyniad</li><li>• Radiograffeg Adrodd</li></ul>   |
| Tudalen 8  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Uwchsain Meddygol</li></ul>  |
| Tudalen 12 | <ul style="list-style-type: none"><li>• Meddygaeth Genomig</li></ul>   |
| Tudalen 13 | <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyllid Cyfwerth i'r Gweithlu Gwyddonwyr Gofal Iechyd</li></ul>   |
| Tudalen 14 | <ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygiad Gwyddonwyr Clinigol Ymgynghorol (Hyfforddiant Gwyddonwyr Arbenigol Uwch) (HSST)</li></ul>                         |
| Tudalen 15 | <ul style="list-style-type: none"><li>• Diogelu Data</li><li>• Cofrestru</li><li>• Costau Teithio</li><li>• Toriad wrth Astudio</li><li>• Manylion Cyswllt</li></ul> |



## Cyflwyniad

### Cyflwyniad

Mae gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) sawl cyllideb ychwanegol i hybu addysg a datblygiad gweithwyr iechyd proffesiynol mewn meysydd penodol:

- Radiograffeg Adrodd
- Uwchsain Meddygol
- Meddygaeth Genomig
- Cyfwerthedd i Wyddonwyr Gofal Iechyd
- Datblygiad Gwyddonwyr Clinigol Ymgynghorol (Hyfforddiant Gwyddonwyr Arbenigol Uwch (HSST))

Mae'r cyllidebau ychwanegol hyn yn helpu sefydliadau i ariannu hyfforddiant a datblygiad staff sydd ei angen i drawsnewid a datblygu gwasanaethau iechyd newydd a phresennol. Mae'r cyllid ar gael yn unig i staff sy'n cael eu cyflogi gan un o sefydliadau GIG Cymru.

### Radiograffeg Adrodd

Bydd AaGIC yn ariannu unigolion i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd i gael modiwlau neu Dystysgrif i Raddedigion mewn Adrodd Radiograffeg. Mae'r rhaglen yn y brifysgol wedi'i hachredu gan Gymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac mae wedi'i chreu i helpu i ehangu gwybodaeth ac i wella sgiliau clinigol yn y sector hwn sy'n datblygu'n gyflym. Mae'r sgiliau a ddysgir yn drosglwyddadwy i bob sefydliad gofal iechyd.

Mae'r rhaglen wedi'u hanelu at rai sydd â chymhwyster a chofrestriad cyfredol fel radiograffydd diagnostig, radiograffydd therapiwtig, neu weithwyr proffesiynol eraill gyda chofrestriad neu gymhwysiad cyfwerth â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). Rhaid bod gan fyfyrwyr hefyd:

- 2 flynedd o brofiad clinigol
- Bod yn gweithio mewn adran radioleg ac yn cael cymorth mentor radiolegol. Bydd angen geirada clinigol, a rhaid nodi'r mentor cyn dechrau ar y rhaglen a rhaid iddynt gael eu dilysu gan dîm y modiwl.
- Mae lleoliadau'n cael eu trefnu gan y myfyriwr a'r cyflogwr.

Nod y cwrs rhan amser hwn yw datblygu sgiliau mewn adrodd radiolegol ac arferion craidd eraill sy'n gysylltiedig â radiograffeg. Mae cyfle i ddewis modiwlau

sydd fwyaf addas ar gyfer eich anghenion fel bod eich dysgu'n berthnasol i chi. Mae modiwlau opsiynol yn canolbwyntio ar feysydd o Adrodd Radiograffeg yr Abdomen i Adrodd Radiograffeg Atodol ac Echelinol

Bydd cyfle i weithio yn ystafell pelydr-x gyffredinol bwrpasol y prifysgolion gyda system PACS i gael profiad o edrych ar ddelweddau a hefyd i ddibenion arbrofol. Yn ogystal â gofod pelydr-x pwrpasol mae gan y brifysgol hefyd gyfarpar dosimetreg, ysgafell hyfforddiant radiograffeg sy'n defnyddio efelychiad rhyngweithiol 3D sy'n cynnwys cyfrifiaduron Shaderware a chyfarpar uwchsaïn pwrpasol sydd ar gael ar gyfer cyfleoedd ymchwil i wella eich dysgu.

Mae'r rhaglen yn un fodiwlaid, a rhaid i fyfyrwyr gwblhau 60 o gredydau yn yr elfen a addysgir o'r rhaglen. Mae un modiwl (30 credyd) yn un craidd a rhaid ei gwblhau ac mae dewis o un modiwl opsiynol (30 credyd). Trefnir modiwlau a addysgir mewn fformat bloc o 2-3 diwrnod sy'n cael eu cynnal drwy gydol y semestrau.

Mae'r addysgu'n digwydd yn bennaf drwy weithdai, tiwtorialau a seminarau. Ceir darlithoedd hefyd, a dilynir y rhain gan gyfle priodol i drafod a gwerthuso'r syniadau a gyflwynir. Mae'r cynnwys yn cael ei ategu gan adnoddau ar-lein.

Mae astudio hunangyfeiriedig yn rhan bwysig o'r cwrs, a byddwch yn cael eich cyfeirio mewn sgiliau astudio ac arweiniad yn y meysydd i'w hastudio. Mae myfyrwyr yn cael tiwtor personol enwebedig ar ôl cofrestru ar y rhaglen, a fydd yn gallu helpu ag unrhyw ofal bugeiliol yn ogystal â chynghor ar faterion academaidd. Mae'r holl fodiwlau o fewn y rhaglen yn gwneud defnydd helaeth o Amgylchedd Dysgu Rhithiol (VLE) Prifysgol Caerdydd Learning Central, lle ceuwch ddeunyddiau'r cwrs, dolenni at ddeunyddiau, cysylltiadau ac asesiadau enghreifftiol. Mae'r holl ddarlithoedd yn cael eu recordio drwy Panopto a byddant ar gael i chi drwy gydol y rhaglen.

Mae myfyrwyr yn cael eu hasesu drwy amrywiaeth o weithdrefnau asesu, fel aseiniadau ysgrifenedig, cyflwyniadau llafar, portffolios a phrosiectau seiliedig ar waith. Bydd arholiadau clinigol yn y modiwlau adrodd. Mae hyn yn eich galluogi i ddangos eich gallu i ddadansoddi a gwerthuso sefyllfaoedd a hefyd i ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno eich syniadau a'ch galluoedd.

## **Gall y myfyriwr ddisgwyl ymarfer a datblygu'r canlynol:**

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth:**

- Canfod ac adnabod anatomi normal ac annormal, sy'n gydnaws â meistrolaeth sgiliau ym meysydd arbenigol penodol anatomi radiograffeg, patholeg a diagnosis gwahaniaethol.
- Ffurfioli diagnosis yn y maes penodol i safon lle nad yw gofal y cleifion yn cael ei beryglu.
- Cynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig cywir, gwybodus mewn ffordd gryno a rhesymegol, gan ddefnyddio sgiliau datrys problemau arbenigol.
- Ymateb i ddilemâu yn y maes ymarfer proffesiynol hwn ac awgrymu rhagor o opsiynau delweddu yn ôl yr angen.
- Gwerthuso tystiolaeth seiliedig ar ymchwil yn feirniadol o ran delweddu ac adrodd a dadlau ar y goblygiadau i ymarfer proffesiynol.

### **Sgiliau Deallusol:**

- Dadansoddi ymchwil yn feirniadol.
- Myfyrio a dadansoddi'r proffesiwn radiograffeg a'ch ymarfer eich hun yn feirniadol.

### **Sgiliau Ymarfer Proffesiynol:**

- Sgiliau ymarferol mewn meysydd sy'n gwella ymarfer

### **Sgiliau trosglwyddadwy / allweddol**

- Sgiliau cyfathrebu hyderus
- Sgiliau ysgrifennu ac astudio academaidd beirniadol
- Sgiliau rheoli amser a threfnu eich hun.
- Datblygu sgiliau ymchwil ymarferol a'u cymhwysu yn eich ymarfer.

**Dyddiad cau i wneud cais:** Diwedd Gorffennaf pob blwyddyn.

### **Modiwlau**

#### **Gwyddor Ymbelydredd Gymhwysol - craidd 30 credyd**

Nodau'r modiwl hwn yw rhoi i'r myfyriwr yr wybodaeth gymhleth ac arbenigol sydd ei hangen i werthuso ansawdd delweddau diagnostig, datblygu gwerthfawrogiad y myfyriwr o ystod y moddau delweddu sydd ar gael a defnydd priodol ohonynt mewn ymarfer clinigol. Byddai cwblhau'r modiwl yn bodloni'r gofynion ar gyfer Atgyfeirwyr Anfeddygol.

#### **Ar ôl cwblhau'r modiwl dylai myfyriwr allu:**

1. Dod i gasgliadau priodol ynglŷn ag ansawdd delweddau
2. Gwerthuso'n feirniadol y defnydd o foddau delweddu diagnostig
3. Dadansoddi a gwerthuso rôl delweddu radiolegol o fewn llwybrau gofal critigol.
4. Gwerthuso'n feirniadol effaith rheoliadau a chanllawiau.
5. Asesu risg a buddiannau amlygiad meddygol i ymbelydredd a gwerthuso'n feirniadol ddulliau i leihau dosau.
6. Adolygu ymchwil yn feirniadol er mwyn hybu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
7. Myfyrio ar rôl delweddu meddygol o fewn eu disgyblaeth broffesiynol er mwyn hybu datblygiad personol a datblygiad y fîm rhyngbroffesiynol.

#### **Adrodd ar Frest ac Abdomen Oedolion 30 credyd**

Nod y modiwl yw rhoi'r wybodaeth uwch i fyfyrwyr sy'n angenrheidiol i gynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig cryno a rhesymegol ar y frest a'r abdomen sy'n cynnwys manylion am ymddangosiad delweddau, dehongli patholeg ac sy'n cysylltu arwyddocâd i reolaeth cleifion gyda sensitifrwydd a phenodolrwydd o 95%.

#### **Ar ôl cwblhau'r modiwl dylai myfyriwr allu:**

1. Canfod ac adnabod anatomi normal ac annormal y frest a'r abdomen
2. Gwerthuso'n feirniadol ddata yn ymwneud â chleifion a atgyfeirir am archwiliadau radiolegol o'r frest a'r abdomen.

3. Cysylltu hanesion clinigol ag ymddangosiadau delweddau perthnasol, gan ddangos sgiliau rhesymu uwch.
4. Cysylltu adroddiadau delweddau diagnostig gyda rheolaeth cleifion yn ddiweddarach
5. Cynhyrchu adroddiadau cryno a rhesymegol ar ddelweddau diagnostig.
6. Cyfiawnhau'r defnydd o ddelweddu pellach.
7. Gwerthuso cywirdeb eu gwaith eu hunain i gyflawni sensitifrwydd a phenodolrwydd o 95%.
8. Myfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer a'u perfformiad adrodd eu hunain.
9. Dadansoddi cystrawen adroddiadau radiograffeg glinigol, gan gydnabod y goblygiadau meddygol-gyfreithiol.
10. Gwerthuso effaith archwiliadau yn y maes delweddu a chyfuno gwelliannau.

### **Adrodd Radiograffeg Delweddau Atodol ac Echelinol 30 Credyd**

Nod y modiwl yw rhoi'r wybodaeth uwch i fyfyrwyr sy'n angenrheidiol i gynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig cryno a rhesymegol ar yr ysgerbwd atodol ac echelinol sy'n rhoi manylion am ymddangosiad delweddau, yn dehongli patholeg ac yn cysylltu arwyddocâd i reolaeth cleifion gyda sensitifrwydd a phenodolrwydd o 95%.

#### **Ar ôl cwblhau'r modiwl dylai myfyriwr allu:**

1. Canfod ac adnabod anatomi normal ac annormal yr ysgerbwd atodol ac echelinol.
2. Gwerthuso'n feirniadol ddata yn ymwneud â chleifion a atgyfeirir am archwiliadau radiolegol o'r ysgerbwd atodol ac echelinol.
3. Cysylltu hanesion clinigol ag ymddangosiadau mewn delweddau perthnasol, gan ddangos sgiliau rhesymu uwch.
4. Cynhyrchu adroddiadau delweddau diagnostig cryno a rhesymegol.
5. Cysylltu adroddiadau delweddau diagnostig gyda delweddu pellach a rheolaeth cleifion yn ddiweddarach.
6. Gwerthuso cywirdeb eu gwaith eu hunain i gyflawni sensitifrwydd a phenodolrwydd o 95%.
7. Myfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer a'u perfformiad adrodd eu hunain.
8. Dadansoddi cystrawen adroddiadau radiograffeg glinigol, gan gydnabod u goblygiadau meddygol-gyfreithiol.
9. Gwerthuso effaith archwiliadau yn y maes delweddu a chyfuno gwelliannau.

### **Dehongli ac Adrodd Delweddau mewn Mamograffeg 30 Credyd**

Nodau'r modiwl yw:

Rhoi i fyfyrwyr y sgiliau a'r wybodaeth arbenigol sydd eu hangen i ddehongli delweddau mamograffig yn gywir mewn gwasanaethau sgrinio a symptomatig hyd safon a gymeradwyir gan Raglen Sgrinio'r Fron y GIG;

Galluogi myfyriwr i ddatblygu sgiliau a chymhwysedd i gofnodi canfyddiadau delweddau mamograffig yn briodol, gan gynnwys gwneud argymhellion ar gyfer camau pellach fel rhan o'r broses asesu;

Galluogi myfyrwyr i fod yn aelodau effeithiol o'r fîm aml-ddisgyblaethol a gwneud cyfraniad pwysig at ddiagnosis clefyd y fron a delweddu'r fron.

### **Ar ôl cwblhau'r modiwl dylai myfyriwr allu:**

1. Dangos gwybodaeth fanwl arbenigol a dealltwriaeth o anatomi a ffisioleg y fron.
2. Gwerthuso ansawdd delweddau mamograffig.
3. Dehongli a disgrifio'n fanwl nodweddion mamograffig annormaleddau ac arfarnu'n feirniadol y risg o falaenedd sy'n gysylltiedig â'r nodweddion hyn wrth wneud penderfyniadau rhesymol ac effeithiol ar ail-alw am asesiad arall.
4. Dangos dealltwriaeth o batholeg sy'n gysylltiedig â chlefyd y fron.
5. Gwerthuso'n feirniadol atebolrwydd proffesiynol a pharamedrau'r rôl broffesiynol estynedig hon a gallu dangos ymwybyddiaeth o'u cyfyngiadau.
6. Gwerthuso a myfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer proffesiynol eu hunain drwy ymgorffori sgiliau archwilio ac ymchwil mewn ymarfer clinigol a bod yn rhagweithiol wrth gynnig a gweithredu newidiadau i bolisiau sy'n hybu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cyfrannu at y gronfa wybodaeth mewn radiograffeg.
7. Arddangos y sgiliau sy'n angenrheidiol i ddeall a gwerthuso/arfarnu'n feirniadol unrhyw wybodaeth newydd am ddatblygiadau mewn technegau delweddu'r fron a rheolaeth cleifion sy'n berthnasol i'w hymarfer.
8. Dangos y gallu i gymhwyso sgiliau proffesiynol a gwybodaeth arbenigol mewn sefyllfaoedd newydd a brofir wrth ymarfer. Bod yn rhagweithiol wrth reoli eu gweithgarwch dysgu/datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain.

### **Y Broses Ariannu**

Bob blwyddyn mae AaGIC yn dyrannu nifer penodol o leoedd a ariennir i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth. Mae'r brifysgol yn cael enwau'r unigolion a enwebir gan eu cyflogwr ac a fydd yn cael eu hariannu gan AaGIC ar ran y sefydliadau. Mae'r arian hwn yn talu ffioedd yn unig.

Rhaid i bob unigolyn a ddewisir sicrhau bod y gofyniad hwn wedi'i nodi fel rhan o'u proses PADR a rhaid cael cytundeb eu rheolwr llinell, a'r Adran Addysg. Noder ei bod yn hanfodol bod pob darpar ymgeisydd **yn cael cytundeb eu cyflogwr bod:**

- **Yr hyfforddiant yn cyd-fynd â blaenoriaethau addysg y sefydliad fel y nodwyd yn yr IMTP.**
- **Rhaid i gyflogwyr gytuno i'w rhyddhau i gael yr hyfforddiant, cyn bod unigolion yn cyflwyno cais am le ar gwrs gyda Darparwr Addysg.**

### **Dyrannu a Monitro**

Bob blwyddyn bydd dyraniad lleoedd yn dilyn y broses isod:



1. Bydd AaGIC yn cyfrifo nifer y lleoedd a ariennir a ddyrannir i bob sefydliad. Bydd AaGIC yn hysbysu sefydliadau'r GIG bob blwyddyn o nifer y lleoedd fydd ar gael i'w sefydliad.
2. Bydd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn cwblhau ffurflen fonitro gyda manylion yr unigolion a enwebwyd gan gynnwys yr hyn maent yn dymuno ei astudio.
3. Os oes unrhyw unigolyn wedi tynnu'n ôl o'r rhaglen neu wedi gadael y sefydliad, dylid rhoi gwybod i AaGIC cyn gynted â phosibl, a chofnodi hynny ar y ffurflen fonitro.
4. Bydd sefydliadau'r GIG yn sicrhau bod unigolion yn gwneud cais i'r rhaglen.
5. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch rhoi manylion cofrestru a gadarnhawyd i AaGIC ar y ffurflenni Monitro o fewn y safle SharePoint erbyn yr amserlen y cytunwyd arni. Rhaid cael anfonebau erbyn 1 Chwefror bob blwyddyn gyda manylion am y cwrs priodol fel cadarnhad ategol.

## Uwchsain Meddygol

Bydd AaGIC yn ariannu unigolion i astudio ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr (UWE) i gael naill ai fodiwlau, Tystysgrif i Raddedigion neu Ddiploma i Raddedigion mewn Uwchsain Meddygol.

Mae'r cwrs yn UWE wedi'i achredu gan y Consortium for the Accreditation of Sonographic Education (CASE). Mae'r cwrs hwn yn gyfle i ymarferwyr gofal iechyd ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn uwchsain obstetreg, gynaeolegol, fasgwlaidd, meddygol cyffredinol, y fron a chyhyrsgerbydol, a ategir gan gyfuniad o brofiad clinigol strwythuredig ac astudio academaidd.

Mae'r cwrs wedi'i ddylunio i gynhyrchu ymarferwyr uwch clinigol cymwys a fydd yn gallu ateb gofynion y gwasanaeth mewn amodau gofal iechyd sy'n newid.

## Modiwlau

- **Hanfodion Technoleg Uwchsain** – Mae'r modiwl hwn wedi'i ddylunio i roi sylfaen yng ngwyddoniaeth ac offeryniaeth uwchsain meddygol a rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar fyfyrwyr i gynnal archwiliadau'n ddiogel a chymwys. Mae hefyd yn edrych ar faterion yn ymwneud â thechnoleg newydd a sicrhau ansawdd.
- **Ystiriaethau Proffesiynol mewn Uwchsain** – Bydd y modiwl hwn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am ddamcaniaethau personol, proffesiynol, moesegol a chyfreithiol ac egwyddorion sy'n gysylltiedig â gofal iechyd gan ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â delweddu meddygol. Bydd hyn yn galluogi'r ymarferydd gofal iechyd i gynnal archwiliadau uwchsain mewn amgylchedd diogel gan roi gofal effeithiol i gleientiaid, o fewn fframweithiau cyfreithiol a moesegol. Bydd cynnwys y modiwl yn hyblyg i ateb gofynion yr agenda gofal iechyd sy'n newid yn gyflym.

- **Datblygiadau Cyfoes mewn Technoleg Uwchsein** – Bydd y modiwl hwn yn galluogi'r myfyriwr i gymhwyso egwyddorion sylfaenol technoleg uwchsein mewn ymarfer clinigol. Mae'r modiwl yn cynnwys cymysgedd o ddarlithoedd a gweithdai ymarferol ac mae'n ystyried ac yn edrych ar faterion yn ymwneud â thechnoleg newydd a sicrhau ansawdd. Disgwylir i fyfyrwyr gyfrannu at drafodaethau sy'n seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiadau eu hunain, gweld bylchau yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac ymchwilio i'r meysydd hyn drwy ofyn cwestiynau a darllen am y pwnc, yn enwedig astudiaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
- **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Dulliau a Methodolegau** (15 credyd) – Er bod y modiwlau i gyd yn dilyn dull seiliedig ar ymchwil o ddysgu, mae'r modiwl craidd hwn yn edrych ar rôl ymchwil ac mae'n gwerthuso'r ystod o ddulliau a methodolegau a strategaethau a fabwysiadwyd mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn ymdrechu i'ch annog i ddatblygu gwybodaeth ymchwil ac i'ch helpu i baratoi eich traethawd.
- **Traethawd Meistr** (45 credyd) neu **Draethawd** (60 credyd) – Efallai eich bod yn ymddiddori mewn maes ymchwil penodol ac yn dewis paratoi traethawd 60 credyd i drafod eich syniadau'n fanwl. Neu, gallwch ddewis modiwl traethawd 40 credyd i gwblhau astudiaeth empeiraidd i ategu agwedd ar eich ymarfer, ynghyd â modiwl 20 credyd opsiynol mewn maes sydd angen ei ddatblygu.

## Modiwlau opsiynol

Y modiwlau opsiynol a restrir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod ar gael, ond mi all y rhestr newid.

- **Uwchsein Meddygol Cyffredinol ar Waith** (30 credyd) – Bydd yn rhoi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth mewn uwchsein cyffredinol yr abdomen ac mae'n cynnwys y rhannau anatomiaidd canlynol: y llwybr wrinaidd, yr afu a'r dduwg, coden y bustl, dwythellau'r bustl a'r pancreas, retroperitoneum, y pibellau gwaed mawr a'r chwarran adrenal, a'r coluddyn, os yn berthnasol i'r archwiliad. Byddwch yn astudio theorïau ac yn ymarfer ar yr un pryd, i hwyluso cymhwyso egwyddorion damcaniaethol mewn ymarfer. Mae'r modiwl hwn yn cynnwys sgiliau rhyngbersonol, adrodd llafar ac ysgrifenedig a gwneud penderfyniadau a chadw cofnodion cywir.
- **Uwchsein Obstetreg ar Waith** (30 credyd) – Bydd yn rhoi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth fydd eu hangen arnoch ar gyfer gyrfa lwyddiannus mewn uwchsein obstetreg ac mae'n edrych ar ôl uwchsein yn y tri mis cyntaf, yr ail a'r trydydd tri mis ac yn ôl-enedigol. Mae hwn yn fodiwl sy'n seiliedig ar ymarfer, lle byddwch yn cael cyfle i roi'r ddamcaniaeth y byddwch yn ei dysgu ar waith, wrth i chi astudio. Mae hefyd yn cynnwys sgiliau rhyngbersonol, adrodd llafar ac ysgrifenedig a gwneud penderfyniadau a chadw cofnodion cywir.

- **Ymarfer Uwch-sain Arbenigol a Negodir 1 a 2** (30 credyd yr un) ac **Ymarfer Uwch-sain Arbenigol a Negodir 3, 4, 5** (15 credyd yr un) - Bydd y modiwlau ymarfer proffesiynol hyn yn rhoi dadansoddiad manwl ac ymwybyddiaeth feirniadol o'r is-arbenigedd a ddewiswyd ym maes uwch-sain meddygol (e.e. gynaeolegol, fasnwlaid, y fron, cyhyrsgerberbydol, ecocardiograffeg). Bydd setiau dysgu gweithredol yn cael eu defnyddio fel fforwm i ddatrys problemau, trafod a dadlau beirniadol. Bydd unigolion yn negodi ac yn datblygu contractau dysgu â staff academaidd a chlinigol.

### **Dysgu ac Addysgu**

Nod y cwrs yw rhoi i chi:

- yr wybodaeth a'r sgiliau i ymarfer mewn modd diogel a chymwys
- y sylfaen addysgol ac ymchwil i werthuso a goleuo ymarfer uwch-sain yn feirniadol
- y cyfle i brofi cydweithio rhyngbroffesiynol ac i rannu dysgu
- dealltwriaeth o gyfraniad uwch-sain at reolaeth gyffredinol y claf
- cymhwyster cydnabyddedig mewn uwch-sain
- y sgiliau i gymryd rhan mewn ymchwil, gwerthuso ac adolygiadau systematig o ymarfer
- gwerthfawrogiad o bwysigrwydd gweithgarwch dysgu gydol oes.

### **Gofynion y cwrs**

- Mynediad at faes clinigol priodol am o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos er mwyn cyflawni gofynion ymarferol y cwrs
- Ymrwymiad gan reolwr yr adran i gynorthwyo dysgu clinigol
- Unigolyn â chymwysterau priodol a fydd yn gweithredu fel arfarnwr clinigol (goruchwyliwr ac asesydd)

### **Amser astudio**

- Bydd y modiwlau'n cael eu cyflwyno fel rhyddhad bloc rhan amser.

### **Asesu**

Bydd yr asesiad yn cynnwys amryw o ddulliau gan gynnwys gwaith cwrs, cyflwyniadau, seminarau, arholiadau ysgrifenedig ac ymarferol.

### **Y Broses Ariannu**

Bob blwyddyn mae AaGIC yn dyrannu nifer penodol o leoedd a ariennir i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth. Mae'r brifysgol yn cael enwau'r unigolion a enwebir gan eu cyflogwr ac y bydd AaGIC yn eu hariannu ar ran y sefydliadau. Mae'r arian hwn yn talu am y canlynol:

- Ffioedd dysgu am
  - PG Cert (60 credyd)
  - PG Dip (120 credyd)
  - Modiwlau

- Llenwi bylchau – 2 draean o gostau cyflog
- Teithio a llety

Rhaid i bob unigolyn a ddewisir sicrhau bod y gofyniad hwn wedi'i nodi fel rhan o'u proses PADR a rhaid cael cytundeb eu rheolwr llinell, a'r Adran Addysg. Noder ei bod yn hanfodol bod pob darpar ymgeisydd **yn cael cytundeb eu cyflogwr bod:**

- **Yr hyfforddiant yn cyd-fynd â blaenoriaethau addysg y sefydliad fel y nodwyd yn yr IMTP.**
- **Rhaid i gyflogwyr gytuno i'w rhyddhau i gael yr hyfforddiant, cyn bod unigolion yn cyflwyno cais am le ar gwrs gyda Darparwr Addysg.**

## Dyrannu a Monitro

Bob blwyddyn bydd dyraniad lleoedd yn dilyn y broses isod:

1. Bydd AaGIC yn cyfrifo nifer y lleoedd a ariennir a ddyrannir i bob sefydliad. Bydd AaGIC yn hysbysu sefydliadau'r GIG bob blwyddyn o nifer y lleoedd fydd ar gael i'w sefydliad.
2. Bydd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn cwblhau ffurflen fonitro gyda manylion yr unigolion a enwebwyd gan gynnwys yr hyn maent yn dymuno ei astudio
3. Os oes unrhyw unigolyn wedi tynnu'n ôl o'r rhaglen neu wedi gadael y sefydliad, dylid rhoi gwybod i AaGIC cyn gynted â phosibl, a chofnodi hynny ar y ffurflen fonitro.
4. Bydd sefydliadau'r GIG yn sicrhau bod unigolion yn gwneud cais i'r rhaglen
5. Bydd AaGIC y paratoi llythyr noddi i bobl unigolyn sy'n sicrhau lle wedi'i ariannu.
6. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch rhoi manylion cofrestru a gadarnhawyd i AaGIC ar y ffurflenni Monitro o fewn y safle SharePoint erbyn yr amserlen y cytunwyd arni. Rhaid cael anfonebau erbyn 1 Chwefror bob blwyddyn gyda manylion am y cwrs priodol fel cadarnhad ategol.

## Addysg Meddygaeth Genomig

Bydd AaGIC yn ariannu unigolion i astudio naill ai ym Mhrifysgol Abertawe neu Brifysgol Bangor i gael modiwlau mewn Tystysgrif i Raddedigion /Diploma neu MSc mewn Meddygaeth Genomig.

Mae Geneteg a Meddygaeth Genomig yn faes sy'n tyfu yn y ddarpariaeth gofal iechyd. Mae datblygiadau yn y maes wedi golygu bod cleifion yn cael diagnosis cynharach a mwy cywir a thriniaethau a gofal cleifion mwy personol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu strategaeth ar gyfer genomeg a meddygaeth fanwl yng Nghymru. I gyflawni hyn, mae Tasglu Genomig o dan

arweiniad Llywodraeth Cymru wedi datblygu datganiad o fwriad, sy'n amlinellu'r gwaith sydd ei angen i gyflawni nodau'r strategaeth.

Mae'r datganiad o fwriad yn amlinellu nifer o egwyddorion a blaenoriaethau a fydd hefyd yn ganolog i'r strategaeth. Un o'r egwyddorion/blaenoriaethau hyn yw "cynllun i ddatblygu gweithlu GIG i helpu i ddarparu meddygaeth fanwl". Bydd y ffrwd gyllido yn cefnogi'r flaenoriaeth hon.

## **Prifysgol Abertawe**

Bydd astudio Meddygaeth Genomig ym Mhrifysgol Abertawe yn rhoi dealltwriaeth a gwerthfawrogiad i chi o'r gwahanol agweddau sy'n ofynnol mewn Meddygaeth Genomig i'ch galluogi i ddehongli data genomig, deall technegau genetig a genomig mewn lleoliadau clinigol, y dulliau biowybodaeth sydd eu hangen i ddadansoddi data genomig a'r sgiliau sydd eu hangen i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion.

Mae rhagor o fanylion ar gael [yma](#)

## **Prifysgol Bangor**

Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar fframwaith y rhaglen MSc Meddygaeth Genomig rhaglen hyfforddi Health Education England (HEE) a'i nod yw cynnig persbectif amlddisgyblaethol ac amlbroffesiwn o faes genomeg, cymwysiadau genomig a meddygaeth fanwl, sy'n datblygu'n gyflym, a hynny yn y clinig ac mewn ymchwil.

Mae rhagor o fanylion ar gael [yma](#)

## **Cyllid**

Mae AaGIC yn diweddarau'r dudalen hon ar hyn o bryd.

## Cyllid Cyfwerth i'r Gweithlu Gwyddonwyr Gofal Iechyd

Mae AaGIC yn comisiynu ac yn ariannu addysg i hybu datblygiad y gweithlu gwyddorau gofal iechyd (HCS). Mae sawl ffrwd gyllido graidd sy'n cefnogi unigolion i gofrestru â chyrff proffesiynol a/neu statws rheoleiddiol â'r HCPC.

- Rhaglenni Hyfforddi ar gyfer Ymarferwyr (PTP)
- Rhaglenni Hyfforddi ar gyfer Gwyddonwyr (STP)
- Hyfforddiant Gwyddonol Arbenigol Uwch (HSST)

Er bod y cyllid addysg hwn yn hanfodol i ddatblygu'r gweithlu mae wedi'i anelu'n bennaf at fyfyrwyr/ymgeiswyr allanol. Mae'n amlwg o adborth a gafwyd gan fyrdau iechyd ac ymddiriedolaethau bod llawer o staff medrus ac addysgedig yn bodoli o fewn y gweithlu HCS presennol yn GIG Cymru. Mae cyllid i ddatblygu'r gweithlu presennol wedi bod yn ddarniog, gyda naill ai rheolwyr lleol neu unigolion yn ariannu unrhyw addysg a datblygiad. Mae manteisio ar y cyllid craidd yn golygu bod yn rhaid i staff adael eu swydd i bob pwrpas i ddilyn yr hyfforddiant heb sicrwydd o swydd ar ôl ei gwblhau. Hefyd, mae lleoedd wedi'u cyfyngu i'r niferoedd a gomisiynir felly mae mynediad at y lleoedd a ariennir drwy broses ddethol gystadleuol.

Mae cynlluniau ar gyfer y gweithlu a gyflwynir gan sefydliadau'r GIG yn dangos yr angen i gynyddu lleoedd hyfforddi ar gyfer gwyddonwyr gofal iechyd ar bob lefel, a'r angen i sefydliadau'r GIG ymwreiddio llwybrau 'cyfwerthedd' yn y GIG a fydd yn helpu unigolion i gael cofrestrriad proffesiynol ac i gael dyrchafiad drwy strwythur gyrfaoedd gwyddonol. Bydd cyllid cyfwerth a llwybrau amgen yn galluogi'r gweithlu i dyfu a datblygu a bydd yn cynorthwyo staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu gyrfaoedd wrth barhau i weithio.

Mae gan AaGIC arian i helpu staff y GIG i fanteisio ar gyfleoedd addysgol i'w galluogi i sicrhau cofrestrriad/rheoleiddio drwy lwybr amgen neu gyfwerthedd. Rhaid i sefydliadau sydd am fanteisio ar y cyllid hwn gwblhau'r ffurflen gais, sy'n cael ei dosbarthu'n flynyddol. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf dyrannu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#)

## **Datblygu Gwyddonwyr Clinigol Ymgynghorol (Hyfforddiant Gwyddonol Arbenigol Uwch HSST)**

Mae HSST yn rhaglen hyfforddi Ddoethurol bum mlynedd yn y gweithle sy'n gyfle i wyddonwyr clinigol i hyfforddi a bod yn gymwys i ymgeisio am swyddi gwyddonwyr clinigol ymgynghorol.

Mae AaGIC yn ariannu'r rhaglen hon drwy gydol y cwrs. Mae'r arian ar gael fel a ganlyn:

1. Ffioedd y Sefydliad Addysg Uwch ar gyfer y ddoethuriaeth
2. Grant blynyddol o £13k a delir mewn rhandaliadau misol, oni bai bod cytundeb gwahanol.

### **Y Broses Ymgeisio**

Mae ceisiadau am leoedd HSST yn cael eu cyflwyno ar y templed comisiynu addysg drwy'r broses IMTP flynyddol. Rhaid i bob unigolyn a ddewisir ar gyfer lle wedi'i ariannu sicrhau bod y gofyniad hwn wedi'i nodi fel rhan o'u proses PADR a rhaid cael cytundeb eu rheolwr llinell. Noder ei bod yn hanfodol bod pob darpar ymgeisydd **yn cael cytundeb eu cyflogwr bod:**

- **Yr hyfforddiant yn cyd-fynd â blaenoriaethau addysg y sefydliad fel y nodwyd yn yr IMTP.**
- **Rhaid i gyflogwyr gytuno i'w rhyddhau i gael yr hyfforddiant, cyn bod unigolion yn cyflwyno cais am le ar gwrs gyda Darparwr Addysg.**

Mae'r lleoedd ar y rhaglen hon yn gyfyngedig felly efallai y bydd yn rhaid cael proses gyfweld yn lleol i ddethol yr ymgeisydd mwyaf priodol. Bydd angen i'r rhai sy'n llwyddo i sicrhau lle wedyn wneud cais i'r rhaglen â'r Ysgol Genedlaethol Gwyddorau Iechyd (NSHCS). Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfweiliad i sicrhau cofrestrriad â'r HCPC a bod gan yr ymgeisydd y rhinweddau priodol i gael eu derbyn ar y rhaglen. Bydd yr elfen academaidd yng ngofal y Sefydliad Addysg Uwch sydd wedi'i achredu i gyflwyno'r ddoethuriaeth. Ar hyn o bryd mae'r holl ddarparwyr yn Lloegr.

Mae rhagor o fanylion am HSST [yma](#)

### **Diogelu Data**

Bydd yr holl staff sy'n sicrhau lle yn cael llythyr ariannu gan AaGIC. Bydd yr holl staff sy'n cael arian yn cytuno y gall AaGIC rannu eu gwybodaeth bersonol â'r darparwr addysg y maent yn astudio â hwy ac ag unrhyw sefydliadau perthnasol eraill. Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gynnwys hysbysiadau preifatrwydd yn eu proses ymgeisio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â GDPR.



## Cofrestru

Drwy gydol eu cwrs, **RHAID** i fyfyrwyr unigol gadw eu cofrestriad proffesiynol. Dylai trefniadau lleol fod ar waith i sicrhau hyn. Mae Myfyrwyr/Hyfforddeion a'u cyflogwr yn gyfrifol gyda'i gilydd am sicrhau bod eu cofrestriad proffesiynol yn parhau'n gyfredol drwy gydol eu cyfnod ar y cwrs.

## Costau Teithio

Noder, oni bai i nodwyd yn wahanol **dim ond ffioedd y cwrs sy'n cael eu hariannu** gan AaGIC. Ni ad-delir unrhyw gostau teithio cysylltiedig.

## Toriad wrth astudio

Rhaid i sefydliadau'r GIG hysbysu AaGIC os yw unrhyw aelodau o staff sy'n cael cyllid yn absennol o'r gweithle a fydd yn golygu eu bod naill ai'n tynnu allan neu'n ddim yn bwrw ymlaen â rhaglen.

## Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu angen eglurhad pellach, anfonwch e-bost i [HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk](mailto:HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk) neu [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk)

